



COFNODION O GYFARFOD BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU

8 Mawrth 2018

Eitem 1: Croeso, cyflwyniadau a diweddariad gan Gyngor Sector Bwyd a Diod y DU – Cadeirydd

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chroesawodd LI fel ysgrifenyddiaeth newydd, i weithio gyda SP i gefnogi'r Bwrdd.
- Nododd AR lwyddiant cinio ymgysylltu'r Bwrdd at 7 Mawrth yn Cosy Corner, Porthcawl. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch y pwyntiau allweddol a gododd o drafodaethau'r noson flaenorol gyda chynhyrchwyr, sef:
 - i. Costau ac anawsterau logisteg, cludo archebion bach mewn modd sy'n effeithiol o ran cost. Nododd DM y gallai'r gwaith sy'n cael ei wneud i edrych am ddatrysiadau newydd helpu i ddatrys y mater, yn enwedig wrth ddefnyddio llwybrau trên teithwyr. Mae'r gwaith hwn yn parhau.
 - ii. Datblygiad y grŵp sydd â diddordeb arbennig mewn mêl
 - iii. Roedd profiad y cynhyrchwyr mêl unigol o weithio gyda phersonél cyn-filwrol â materion iechyd meddwl i'w hyfforddi i ddod yn wenynwyr o ddiddordeb arbennig, gan weddu'n dda â'r agenda sgiliau. Nododd MS brofiad cadarnhaol iawn o weithio gyda Help for Heroes
 - iv. Awgrymodd MS y dylid datblygu dosbarth meistr ar gyfer datblygu cynhwysion o Gymru i dynnu sylw at sut y gallai cynhyrchwyr ddefnyddio cynhwysion megis perllysiau, mêl, halen ac ati. Nododd DL bod y cyfeiriadur o gynhyrchwyr bwyd wedi'i lansio a bydd Arloesi Bwyd Cymru yn llunio cyfeiriadur o gynhwysion bwyd.
 - v. Nododd DL y byddai Canolfan y Diwydiant Bwyd yn cynnal cyfarfod cyntaf y clwstwr mêl.
 - vi. Tynnodd JF sylw at y mater a ddylid cael strategaeth arloesi ar gyfer Cymru. Nododd DM mai Prosiect Helix yw'r adnodd arloesi a bod clwstwr Maeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau ar strategaethau ymchwil a datblygu. Tynnodd MS sylw at y cyfle i gydweithio ar becynnau amgylcheddol yn ystod y cyfnod cyn gystadleuol. Nododd KP y gwaith y mae WRAP a'r Courtauld wedi bod yn ei wneud ar ddeunydd pecynnu. Cafwyd trafodaeth ar ôl hyn ynghlŷn â sut mae diffinio'r gofod arloesi. Cyfeiriodd JF at strategaeth arloesi'r Ffederasiwn Bwyd a Diod.
- Cytunwyd y dylid dilyn yr un fformat ar gyfer ciniawau ymgysylltu'r Bwrdd yn y dyfodol
- Diweddarodd AR y Bwrdd ynghylch cyfarfod cyntaf Cyngor Sector Bwyd a Diod y DU a gynhaliwyd ym mis Ionawr. Mynychodd AR y cyfarfod hwn lle y cytunwyd ar gylch gorchwyl y cyngor a'r prosiectau



Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (18) M13

cyntaf. Bydd y cyngor yn cwrdd yn chwarterol ac mae wedi cytuno ar y ffrydiau gwaith canlynol: maeth, allforio, logisteg, cynhyrchedd, pecynnu, sgiliau, arloesi a delio â'r sector amaethyddol. Bydd aelodau sylfaenol o Aelodau'r Cyngor yn cadeirio'r ffrydiau gwaith. Bydd gweithgorau yn cefnogi pob ffrwd gwaith. Nododd KP y cysylltiad rhwng y ffrwd gwaith ar gyfer maeth a strategaeth gordewdra Cymru.

- Cytunodd y bwrdd y dylai AR parhau i gynrychioli Cymru ar Gyngor Sector Bwyd a Diod y DU.

Eitem 2: Cofnodion o Gyfarfod 8 Rhagfyr 2017 a'r Log Gweithredu

- Nodwyd a derbyniwyd y cofnodion ac adolygwyd a diweddarwyd y camau gweithredu yn y log gweithredu sydd heb eu cymryd.
- Nododd DM y byddai SeaFish a Cywain yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gynhyrchu strategaeth ar y cyd.

Eitem 3: Dangosfwrdd Cyflawni

- Mae'r dangosfwrdd cyflawni wedi'i adolygu fel ei b od yn adlewyrchu ffrydiau gwaith Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Nododd DM bwyntiau allweddol o'r Dangosfwrdd Cyflawni:
 - i. Cyflawnwyd gwerth £6.9 biliwn erbyn mis Rhagfyr 2016 (cyhoeddwyd ym mis Medi 2017), ond nodwyd rhybudd ynghylch heriau Brexit yn y dyfodol
 - ii. Mae ffigurau dros dro yn dangos bod allforion wedi cynyddu 16% i £500 miliwn yn 2017
 - iii. Gofynnodd AR ynghylch faint o'r cynnydd mewn allforion sydd oherwydd amrywiadau mewn arian cyfred. Mae'n anodd asesu hyn gan fod ffigurau allforio wedi'u seilio ar ddata CThEM. Gellid cynnwys cwestiwn yn arolwg diwydiant Prifysgol Met Caerdydd
 - iv. Mae Arloesi Bwyd Cymru wedi cyhoeddi'r cyfeiriadur cynhyrchwyr bwyd a'r fersiwn chwiliadwy ar-lein
- Nododd bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi ymgymryd â rhywfaint o ymchwil ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru.
- Nododd DL bryder ynghylch y toriadau sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r effaith ar iechyd yr amgylchedd a safonau masnach a'r potensial ar gyfer dioddef argyfwng bwyd.
- Nododd KP y byddai'r Gynhadledd Bwyd Cynaliadwy a'r Gynhadledd Ynni Bwyd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd ym mis Mehefin.
- Nododd DM gylch gwaith Russell Roberts yn swyddfa Brwsel i nodi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau sydd wedi'u hariannu gan yr UE, megis Rhaglen Allforio Bwyd Ardal yr Iwerydd

Eitem 4: Gweledigaeth 2025, Strategaeth "Ffyniant i Bawb"

- Nododd AR bod angen cysylltu strategaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i "Ffyniant i Bawb" Llywodraeth Cymru



Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (18) M13

- Dosbarthwyd dogfen gan SP sy'n nodi amcanion "Ffyniant i Bawb", cyfraniad yr Adran Bwyd, a chyfraniad Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Nododd DLT ei bod yn debygol y bydd datganiadau pellach ynglŷn â strategaeth Ffyniant i Bawb.
- Atgyfnerthodd AR bwysigrwydd cwblhau cam gweithredu 17 (isod) gan holl aelodau'r bwrdd
- Nododd SP y byddai gweithdy Gweledigaeth 2025 yn cael ei gynnal ym mis Mai

Eitem 5: Strategaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru 2018-2020

- Atgyfnerthodd AR yr angen i ddilyn y strategaeth gan sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni'r elfennau unigol

Eitem 6: Diweddariad ffrwd gwaith Pobl a Sgiliau

- Nododd AR pa mor falch yr oedd gyda'r ddwy gynhadledd sgiliau, y cyfraniadau a dderbyniwyd gan y diwydiant a'r lefelau o ymgysylltu
- Nododd JF fod adroddiad y gynhadledd wedi'i ddsbarthu fel rhan o bapurau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Tynnodd JF sylw at y ffaith bod mwy na 30 o addewidion Gyrfaoedd Blasus wedi'u gwneud a bod y rhain yn derbyn dilyniant gyda chyfarfod i drafod y camau nesaf e.e. sut i ymgysylltu ag ysgolion, sut i hyfforddi llysgenhadon; bydd pob un wnaeth addewid yn derbyn tystysgrif
- Nododd JF mai gweithrediad allweddol nawr fyddai deall yr anghenion sgiliau ar draws yr is-sectorau trwy ymgysylltu â phartneriaethau a chlystyrau sgiliau'r diwydiant. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn fatrics o sectorau/gofynion hyfforddi
- Nododd JF y gwaith pellach gydag ysgolion ar sail her fwyd. Bydd hyn yn rhan o Fagloriaeth Cymru mewn ysgolion uwchradd, a bydd yn cydblethu ag elfen entrepreneuriaeth Bagloriaeth Cymru. Y bwriad yw cael y cynnyrch bwyd yn barod erbyn Blas Cymru. Bydd ysgolion cynradd hefyd yn derbyn her fwyd
- Awgrymodd DM y dylid cysylltu â'r rhaglen cyfoethogi gwyliau ysgol
- Awgrymodd KP y dylai byrddau iechyd/timau dieteteg gymryd rhan
- Nododd JF bryderon tebyg ynghylch hyfforddiant diogelwch bwyd gyda chymwysterau gwahanol yn cynnig lefelau ansawdd amrywiol.

Eitem 7: Diweddariad ffrwd gwaith Cwsmeriaid a Marchnadoedd

- Tynnodd ALW sylw at y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal fel rhan o ffrwd gwaith Cwsmeriaid a Marchnadoedd
- Nododd DM y disgwylir cael rhai canlyniadau o'r gwaith brandio erbyn diwedd mis Mawrth
- Nododd ALW bod Kantar yn cyflwyno digwyddiad Tuck In ar 17 Mai



Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (18) M13

- Trafododd aelodau sganio gorwel yng nghyd-destun y ffrwd gwaith hon, gan nodi bod gan ddata Kantar ei gyfyngiadau wrth edrych ar dueddiadau'r dyfodol.
- Tynnodd AE sylw at Food Futures Lab sy'n edrych ar dueddiadau'r dyfodol a sganio gorwel
- Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch strategaeth arloesi (gweler cam gweithredu 5 uchod)

Eitem 8: Ffrwd gwaith Busnes a Buddsoddi

- Diweddarodd HT y bwrdd ynghylch y rhaglen Buddsoddw'r Parod (Investor Ready) sy'n cael ei gyflenwi fel rhaglen gynorthwyol ddilynol ar ôl y gynhadledd Gyllid. Cynhwyswyd adroddiad ym mhapurau'r bwrdd
- Mae BIC Innovation yn cyflawni'r rhaglen hon; Crynhodd LG ymgysylltiad y diwydiant gyda'r rhaglen hyd yn hyn a nododd bod Banc Datblygu Cymru wedi gwneud buddsoddiad mewn cwmni bwyd a oedd o ganlyniad i gyflwyniadau a wnaed yn y gynhadledd gyllid a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016
- Cafwyd trafodaeth ar ôl hyn ynghylch diffyg tryloywder ffynonellau cyllid amrywiol, gan gynnwys ffynonellau masnachol a'r sector cyhoeddus megis Innovate UK. Nododd LG bod cyfeiriadur o ddarparwyr cronfeydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y gynhadledd a bod hyn yn cael ei ddiweddarau fel rhan o'r rhaglen Buddsoddw'r Parod. Ystyriwyd y byddai dogfen o fath siart llif yn ychwanegiad defnyddiol i hyn
- Nodwyd bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi Cronfa Brexit gwerth £50 miliwn

Eitem 9: Strategaeth y Diwydiant Diodydd

- Yn anffodus nid oedd BG yn gallu mynychu'r cyfarfod; felly camodd Mark Grant o Levercliff i'r adwy ar fyr rybudd i ddiweddarau'r bwrdd ynghylch gweithgaredd y clwstwr Diodydd
- Cafodd papurau Grŵp â Diddordeb Arbennig yng Ngwin Cymru NB eu dosbarthu cyn y cyfarfod
- Nododd MG bod tair ffrwd waith wedi dod i'r amlwg o'r cyfarfodydd clystyrau cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd: gwerthiannau a marchnata; gweithrediadau a chyllid; pobl a sgiliau. Cynhaliwyd cyfarfodydd ffrydiau gwaith ym mis Chwefror, a nodwyd mwy na 60 o gamau nesaf/prosiectau bach yn y cyfarfodydd hyn, gan gynnwys rhai sy'n cynnig "enillion cyflym" ar gyfer y clwstwr.
- Mae MG wedi cwrdd â Croeso Cymru i drafod cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan Ffordd Cymru
- Cynrychiolir y Clwstwr Diodydd ar y bwrdd gan BG a NB

Eitem 10: Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (18) M13

- Darparodd EJ drosolwg o'r gweithgaredd cyfathrebu ynghylch y gynhadledd sgiliau a gweithgaredd Dydd Gŵyl Dewi. Roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys:
 - gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch #TastyCareersPledge (roedd un neges drydar wedi arwain at 5,500 o argraffiadau)
 - Roedd y sylw a gafwyd ar y teledu/radio ar Ddydd Gŵyl Dewi yn cynnwys Saturday Kitchen, Sunday Brunch, Chris Evans Breakfast Show, Simon Mayo Drive Time (â chyfanswm chyrhaeddiad o tua 16 miliwn o wylwyr/gwrandawyr i gyd)
- Ysgogodd EJ y Bwrdd i ystyried pa ymgysylltiad sydd ei angen ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru
- Nododd SP y byddai'r Sioe Wanwyn (19 a 20 Mai) yn cynnwys sgiliau
- Awgrymwyd y byddai digwyddiad brecwast ar ddydd Mawrth Sioe Frenhinol Cymru yn gweithio (ni ddylai fod yr un adeg â brecwast HCC ar y dydd Llun). Teimlwyd bod digwyddiadau yn y bore yn gweithio'n well na digwyddiadau gyda'r hwyr
- Bydd SP ac AR yn cwrdd â Sara Jones o Gonsortium Manwerthu Cymru ar 20 Mawrth i drafod gweithgareddau Sioe Frenhinol Cymru

Eitem 11: Diweddariad ar Brexit, Arfarnu Economaidd, Addas ar gyfer y Farchnad

- Dosbarthwyd ffeithluniau arfarnu economaidd fel rhan o bapurau'r Bwrdd
- Nododd DLT bod y targed o £7 biliwn bron a'i gyrraedd ac mae'n debygol y bydd yn cael ei ragori erbyn 2020. Nododd hefyd bod cyfradd busnesau sy'n goroesi yn sector bwyd Cymru yn well nag ystadegau'r DU, ond bod y gyfradd creu busnesau yn is
- Tynnodd DLT sylw at bwyntiau o ddiddordeb am yr is-sector cynhyrchu megis cyfraniad gwerth y sector grawn a startsh o ddeg uned busnes
- Nododd DLT hefyd bod adran ystadegau Llywodraeth Cymru wedi dyrannu adnodd bwyd a diod penodol i alluogi diweddariadau mwy cyson
- Awgrymwyd y gallai ystadegau penodol ar gyfer y sector hysbysu penderfyniadau'r dyfodol ynghylch cynrychiolaeth y bwrdd. Fodd bynnag, gohiriwyd y drafodaeth hon fel ei bod yn rhan o drafodaethau Gweledigaeth 2025
- Atgoffodd JF y bwrdd bod rhywfaint o ymchwil wedi'i gynnal yn flaenorol gan Brookdale a oedd wedi ystyried faint oedd sectorau wedi'u hymgorffori yng Nghymru
- Diweddarodd DM y bwrdd ynghylch gweithgareddau Addas ar gyfer y Farchnad - bydd 22-24 o brosiectau yn cael eu cyflawni cyn diwedd mis Mawrth 2018
- Nododd SP bod tîm Brexit Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyfarfod hanner diwrnod gydag aelodau o'r Bwrdd



Eitem 12 - Trafodaeth Croeso Cymru

- Ymunodd Lynette Newington (LN) o Croeso Cymru â'r cyfarfod i gyflwyno agweddau bwyd a diod o strategaeth a gweithgareddau Croeso Cymru
- Tynnodd LN sylw at gyfleoedd yn y dyfodol i hyrwyddo bwyd a diod mewn digwyddiadau sydd ar ddod gan gynnwys Ras Gefnfor Volvo, Partneriaeth Qatar a Ffordd Cymru
- Nododd LN, EJ a DM y berthynas waith sydd llawer yn agosach rhwng tîm cyfathrebu'r Adran Bwyd a Croeso Cymru, gydag ymgysylltiad agos ar draws gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi a datblygiad cynnwys ar y cyd, gan gynnwys ffotograffiaeth bwyd
- Mae LN ac EJ yn gweithio gyda'i gilydd yn barod i gynllunio gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi yn 2019
- Tynnodd LN sylw at y ffaith fod 2018 yn Flwyddyn y Môr
- Nododd AR y dylai fod yn ddeialog/proses dwy ffordd rhwng cyfathrebu Bwyd a Diod Cymru a Croeso Cymru, gyda'r Bwrdd yn mewnbynnu i ymgyrchoedd cyfathrebu'r dyfodol

Eitem 13 – Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor ac Allforion

- Ymunodd Anne Reynish â'r cyfarfod ac esboniodd ei rôl i'r bwrdd, ynghyd â'r rhaglen allforio gyfredol
- Rhoddodd Anne R drosolwg o Blas Cymru gan nodi'r cyfleoedd ar gyfer nawdd a bydd proses cystadleuol ar gael i gynhyrchwyr gymryd rhan ynddo. Y bwriad yw cael mwy o brynwyr o dramor yn y digwyddiad
- Cyflwynodd Anne R ddrafft o ddec sleid buddsoddi uniongyrchol o dramor gan dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer buddsoddi uniongyrchol o dramor yn y sector bwyd a diod

Eitem 14: Unrhyw Fater Arall

- Ailddatganodd MS yr angen i edrych ar ddefnydd plastigau/deunydd pecynnu ac i'r Bwrdd i gymryd rôl arweiniol



ATODIAD 1

YN BRESENNOL

Andy Richardson (AR)
David Lloyd (DL)
Alison Lea-Wilson (ALW)
Huw Thomas (HT)
Katie Palmer (KP)
Marcus Sherreard (MS)
Annitta Engel (AE)
Justine Fosh (JF)

Swyddogion

David Morris (DM)
David Lloyd-Thomas (DLT)
Suzanne Pomeroy (SP)
Enfys Jones (EJ)

Ysgrifenyddiaeth

Lara Israel
Linda Grant

Gwesteion

Mark Grant (MG)
Lynette Newington (LN)
Anne Reynish (Anne R)

YMDDIHEURIADAU

Keith Smyton (KS)
Andrew Martin (AM)
Buster Grant (BG)
Norma Barry (NB)
James Wilson (JW)